

DECHREUADAU'R RAF

RAF
100

raf100schools.org.uk

1914

Ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf ym 1914, dim ond ers deng mlynedd yr oedd pobl wedi bod yn hedfan awyrennau'n llwyddiannus. Peiriannau syml oedd awyrennau, wedi'u gwneud o bren, canfas a gwifrau a phrin y gallen nhw deithio'n bell nac yn gyflym.

Awyrennau dwbl oedd yr awyrennau, gan nad oedd technoleg bryd hynny wedi datblygu deunyddiau fyddai'n ddigon cryf ond hefyd yn ddigon ysgafn i wrthsefyll mecaneg hedfan. Un peilot yn unig y gallai'r rhan fwyaf o awyrennau ei gario er, gydag amser, gallent gario dau berson. Roedd yr awyren Sopwith Camel, wedi'i gwneud o bren a'i gorchuddio â deunydd, yn nodweddiadol o'r math o awyrennau a gafodd ei defnyddio yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y tanc tanwydd wedi'i leoli yng nghefn yr awyren, gan achosi i'w chraidd mäs amrywio'n sylweddol wrth newid ei llwyth tanwydd, ac ennill iddi'r enw o fod yn anodd ei hedfan.

Awyren ddwbl oedd y Sopwith Camel – hynny yw, roedd ganddi ddwy set o adenydd. Roedd awyrennau cynnar yn cael eu hadeiladu yn y ffordd hon oherwydd gwendid deunyddiau'r cyfnod. Roedd y metel a oedd yn cael ei gynhyrchu bryd hynny'n rhy drwm, yn enwedig i'r peiriannau pŵer-isel a oedd ar gael. Wrth fod â dwy adain, roedd y straen ar adain unigol yn cael ei leihau; felly, trwy rannu'r llwyth, roedd yr adenydd yn llai tebygol o dorri. Byddai'n rhaid i beiriannau mwy pwerus a deunyddiau cryfach fod ar gael cyn y byddai awyrennau mwy modern yn bosibl.

Er gwaethaf cyfyngiadau'r awyrennau cynnar, roeddent er hynny'n rhoi golwg unigryw o'r hyn a oedd yn digwydd ar y ddaear, ac arweiniodd hyn at ffurfio'r RFC, y Royal Flying Corps, fel rhan o'r Fyddin Brydeinig ym mis Ebrill 1912. Ffurfiodd y Llynges Frenhinol ei Wasanaeth Awyr ei hun, yr RNAS, ychydig cyn y rhyfel. Er hynny, pan ddechreuodd y rhyfel, nid oedd gan Brydain fwy na rhyw 200 o awyrennau a oedd yn gweithio fel rhan o'i byddin.

GOLWG O'R AWYR



Arolwg o faes brwydro o'r awyr

Cyn dyfeisio'r awyren, roedd balwnau'n cael eu defnyddio'n aml i gael golwg o'r awyr. Roedd balwnau arsyllu statig yn cael eu defnyddio ar y meysydd brwydro yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, fodd bynnag, roedd yr hyn y medrent ei weld wedi ei gyfyngu gan eu lleoliad, gan mai'r cwbl y medrent ei wneud oedd esgyn i fyny ar raff hir ac yna cael eu tynnu'n ôl i'r ddaear unwaith eto. Roedd awyrennau'n caniatáu golwg lawer ehangach o faes y frwydr a gallent hedfan y tu

ôl i linellau'r gelyn. Fodd bynnag, yn ystod cyfnodau cynnar y rhyfel, doedd dim camera na radio ar yr awyrennau am fod y rheiny'n drwm iawn, ac felly roedd gofyn i'r peilotiaid hedfan ac yna cofio beth roedden nhw'n ei weld, gan adrodd yn ôl wedyn i'r staff ar y ddaear wedi iddynt lanio. Yn ystod brwydr go iawn, roedd peilotiaid yn gallu defnyddio stribiau neges neu fagiâu yn cynnwys pwysau i gyfathrebu â'r rhai ar y ddaear ynglŷn â beth allent ei weld.

Erbyn hydref 1914, roedd yr ymladd ar y Ffrynt Gorllewinol yn bennaf o gwmpas y ffosydd. Roedd natur statig, ansymudol yr ymladd yn gwneud rhagchwilio o'r awyr yn bwysicach nag erioed er mwyn i arweinwyr y fyddin weld beth oedd yn digwydd a beth oedd y gelyn yn ei gynllunio. Ym 1915, datblygwyd camerâu arbennig ac roedd modd

strapio'r rhain i ochr yr awyren. Roedd y camerâu yn ddyfeisiau mawr, trwm ac roedd rhaid eu gweithio â llaw. Byddai gofyn i'r peilotiaid hedfan mewn llinell syth er mwyn gallu tynnu llawer o luniau dros ardal gryno, a chreu cyfres o luniau y gellid eu rhoi at ei gilydd unwaith y byddent wedi eu datblygu yn ôl ar y ddaear. Roedd hedfan fel hyn yn golygu ei bod yn hawdd saethu'r peilotiaid o'r ddaear. Roedd awyrennau'n cael eu taro a'u dinistrio'n aml, a'r peilotiaid yn cael eu dal, eu clwyfo neu eu lladd.

Roedd yr awyrennau hefyd yn cael eu cyfyngu gan amodau'r tywydd. Roedd cymylau isel yn golygu naill ai na allai'r peilotiaid weld neu fod yn rhaid iddynt hedfan yn beryglus o agos i'r ddaear. Mewn rhai brwydrau, roedd y gwelededd yn cyfyngu ar allu'r peilotiaid i fod o unrhyw help.

YSGARMESOEDD AWYR

Roedd y bygythiad a achosai rhagchwilio o'r awyr i'w cynlluniau mor fawr fel yr anfonai'r ddwy ochr eu hawyrennau i fyny i geisio atal y gweithgarwch. Roedd bod ag arfau ar yr awyrennau cynnar yn anodd oherwydd eu gwneuthuriad bregus. Roedd rhai peilotiaid yn mynd â phistol i fyny i'r awyr, ond gallent wneud llawn cymaint o ddifrod i'w hawyrennau eu hunain pe bai bwled yn taro'r adain neu, yn waeth fyth, y llafn gwthio.

Yr ateb i beidio defnyddio pistol oedd bod â gwn wedi'i osod ar yr awyren. Yr Almaenwyr wnaeth hynny gyntaf, ym 1915 ar y Fokker Eindekker, wedi iddynt ddyfeisio mecanwaith ymyrryd ar y peiriant saethu oedd yn ei alluogi i saethu trwy lafnau gwthio oedd yn troi. Roedd hyn hefyd yn golygu bod y gwn o flaen y peilot ac nad oedd angen iddo symud o gwmpas ryw lawer i danio'r gwn. Unwaith i beilotiaid y Cynghreiriaid ddiodef ymosodiad o'r fath yn yr awyr, aeth gwyddonwyr Prydain ati i greu eu fersiwn nhw eu hunain o awyrennau ymladd.



Canlyniad hyn oedd ysgarmesoedd awyr gyda pheilotiaid yn eu hawyrennau bach yn ymladd â'i gilydd wrth geisio gwneud, neu rwystro, cyrchoedd rhagchwilio.

PROPAGANDA

Yn y blynyddoedd 1915–1918, roedd awyrennau wedi cael eu defnyddio yn y rhyfel seicolegol yn erbyn yr Almaenwyr a'u Cynghreiriaid. Roeddent wedi cael eu defnyddio i ollwng taflenni cefnogol dros Wlad Belg, Ffrainc a'r Eidal, oedd

wedi'u goresgyn. Cafodd taflenni eu gollwng o'r awyr i ffosydd yr Almaen hefyd, ac ynddynt negeseuon i geisio digalonni'r milwyr. Roedd defnyddio awyrennau yn y modd hwn yn gwthio'r penaethiaid milwrol i archwilio pa mor amlbwrpas y

gallai rôl awyrennau fod. A chafodd cynllunwyr eu gwthio i ddod o hyd i ffyrdd fyddai'n galluogi awyrennau i gario mwy, a pheilotiaid i fedru gollwng cargo neu eitemau eraill tra'n dal i hedfan.

GWARCHODLU'R AWYR

Ym mis Rhagfyr 1914, hedfanodd awyren-fôr Almaenig dros iardiau llongau Caint a gollwng bom; methodd y bom ei tharged ond yr ymosodiad hwn ar Brydain o'r awyr oedd dechrau'r brwydro yn yr awyr. Dilynwyd hynny gan ymosodiadau o longau awyr Zeppelin yr Almaen, oedd yn medru hedfan yn dawel pan yn agos at y targed gofynnol. O ganlyniad i'r cyrchoedd Zeppelin, lladdwyd nifer o bobl gyffredin ar draws Caint a chyn belled â Llundain. Dechreuodd Prydain anfon awyrennau i fyny i gwrdd â'r ymosodwyr a'u dychryn, heb eu cyrraedd bob amser, ond roedd yr awyrennau Zeppelin yn cario peiriannau saethu a allai wrthsefyll unrhyw ymosodiad.

Rhwng 1915 a 1916, roedd tua 20 ymosodiad y flwyddyn, sawl awyrlong yn ymosod gyda'i gilydd bob tro. Bu'n rhaid i nifer fawr o awyrenwyr ac awyrennau yr oedd eu hangen ar y Ffrynt aros yn y DU i warchod yr awyr. Ar 2 a 3 Medi

1916, ymosododd yr Is-gapten William Leefe Robinson ar awyrlong ac achosi iddi ffrwydro a syrthio. Wrth weld hyn, bloeddiodd pawb oedd ar y ddaear. Dyfarnwyd Croes Victoria i'r Is-gapten. Dyma'r arwydd cyntaf fod gan yr awyrlongau wendidau.

Ym mis Mehefin 1917, dechreuodd yr Almaenwyr hedfan awyrennau bomio Gotha dros y DU i ollwng bomiau. Achosodd yr ymosodiad cyntaf lawer o farwolaethau, a bu'n rhaid ail-drefnu a rhoi blaenoriaeth i'r gwarchodluoedd awyr; dyma un o'r ffactorau a arweiniodd at y cytundeb mai un gwasanaeth awyr ddylai fod. Erbyn mis Mai 1918, roedd y defnydd o beiriannau saethu gwrth-awyrennau a balwnau amddiffyn, ynghyd â sgwadronau ymladd, yn golygu bod yr Almaenwyr wedi colli 60 o awyrennau bomio a dechreuodd yr ymosodiadau leihau.

Y PEILOIAID A'R CRIW DAEAR

Roedd hedfan yn dal i fod yn newydd, ac roedd technoleg newydd ac awyrennau bregus, ynghyd â'r amodau, yn peri bod swydd peilot yn hynod beryglus.

Bu farw llawer o ddynion wrth gael eu hyfforddi, a methodd rhai peilotiaid newydd gyrraedd yr awyr oherwydd i'w hawyren chwalu wrth godi - wrth i fâs craidd yr awyren gael ei wthio gan lwyth llawn o danwydd i fan peryglus ymhell yn ôl ar ei chorff.

Oherwydd y defnydd o awyrennau syml, ynghyd â'r tebygolrwydd o gael ymosodiad o'r awyr ac o'r ddaear, byr oedd bywyd peilotiaid y Cynghreiriaid; rhyw 17.5 awr o amser hedfan neu ddim ond 11 diwrnod yn ystod 1915. Roedd awyrennau'r Almaen yn fwy datblygedig, a hynny'n golygu llai o golledion.

Er hynny, roedd niferoedd mawr o ddynion ifanc eisiau bod yn beilotiaid, a llawer oedd â diddordeb mecanyddol eisiau bod yn rhan o'r criwiau daear.

Y darlun sydd gennym o beilot y Rhyfel Byd Cyntaf yw rhywun o gefndir cyfoethog, ac roedd hynny'n aml yn wir yn y dyddiau cynnar. Roedd hyn oherwydd bod yr RFC yn awyddus i recriwtio unrhyw un oedd eisoes â phrofiad o hedfan - a rhai o gefndir cyfoethog oedd y rheiny gan amlaf. Wrth i'r rhyfel fynd yn ei flaen, byddai pobl o wahanol gefndiroedd a oedd yn cael eu hystyried yn weddol addysgedig yn cael eu recriwtio. Roedd yr hiliaeth a rwystrai ddynion Indiaidd neu ddu rhag bod yn swyddogion ac awyrenwyr ar ddechrau'r rhyfel hefyd yn cael ei herio.

Roedd Hardit Singh Malik a anwyd yn y Pwnjab yn astudio ym Mhrifysgol Rhydychen pan benderfynodd ymuno â'r RFC ym 1916. Fel Sikh, roedd angen iddo wisgo tyrban, a chafodd helmed arbennig wedi'i gwneud i ffitio drosto. Goroesodd y rhyfel er i rywrai danio ato lawer gwaith; o ganlyniad roedd dwy

fwled yn llechu yn ei goes am weddill ei oes. Bu farw ym 1985, yn 90 oed.

Yn Kingston, Jamaica y ganwyd William Robinson Clarke - Robbie - ym 1895. Teithiodd Clarke i Brydain ym 1915, i ymuno â'r Corfflu Hedfan Brenhinol. Ar y dechrau roedd Clarke yn gwasanaethu fel mecanic awyr, ond ar 18 Hydref cafodd ei anfon i Ffrainc fel gyrrwr gyda chwmni balwnau arsyllu anhysbys. Wedi iddo gael ei ddyrchafu'n sarjant, aeth i Wlad Belg i wneud gwaith rhagchwilio. Daeth Clarke yn beilot mewn pryd i ymladd ym Mrwydr Messines ym mis Mehefin 1917. Wedi iddo gael ei glwyfo mewn ymosodiad yn ystod taith rhagchwilio, treuliodd Clarke gyfnod mewn ysbyty ym Mhrydain. Cafodd ddiswyddiad anrhydeddus ym mis Awst 1919. Dychwelodd i Jamaica a bu farw ym mis Ebrill 1981, a chladdwyd ef ym Mynwent Filwrol Gwersyll Up Park, Kingston.

Y peilot awyren ymladd neu'r 'ace' gyda'r sgôr uchaf (o awyrennau'r gelyn wedi'u saethu i lawr), oedd Edward 'Mick' Mannock VC. Wedi'i eni yn Brighton ym 1887, gadawodd yr ysgol yn ifanc i helpu i gynnal ei fam a'r plant eraill. Ymunodd yn wreiddiol â'r fyddin fel milwr cyffredin, ond dringodd i fyny'r rhengoedd i fod yn Beiriannydd Brenhinol cyn cael ei drosglwyddo i'r RFC. Ar 26 Gorffennaf 1918, cafodd ei awyren ei tharo wrth iddi hedfan dros y Ffrynt Gorllewinol a bu farw. Dyfarnwyd Croes Victoria iddo'r flwyddyn ddilynol.

Ganwyd Henry Allingham ym 1896 ac ymunodd â'r RNAS ym 1915. Gwasanaethodd ar fwrdd llong yn ystod Brwydr Jutland fel rhan o'r gefnogaeth filwrol i awyrennau môr.



William Robinson Clarke

Nid peilot oedd, ond mecanic, a chafodd ei anfon i Ffrainc ym 1917 a'i swydd oedd 'Mecanic Awyr Dosbarth Cyntaf'. Cafodd ei drosglwyddo i'r RAF pan gafodd ei ffurfio ym 1918. Bu Allingham fyw nes ei fod yn 113, a marw yn 2009. Roedd ymhlith yr olaf o'r cyn-filwyr a orosodd y Rhyfel Byd Cyntaf.

O 1917 ymlaen, roedd menywod yn gallu gwasanaethu yn y fyddin fel cynorthwywyr i'r RFC a'r RNAS. Unwaith i'r RAF gael ei greu, cafodd RAF y Menywod hefyd ei sefydlu. Roedd y WRAF wedi'i rannu'n bedair adran: technegol a heb fod yn dechnegol; gosgorddion; clerod; a stôr-wragedd.

Er mai fel clerod y gweithiair mwyaf, roedd rhai yn gwasanaethu fel gyrrwyr a gyrrwyr beiciau modur. Roedd yr adran dechnegol yn gwneud defnydd o sgiliau arbenigol rhai o'r menywod, yn eu plith weldwyr metel, ffitwyr a gwniadwragedd.

Y GWASANAETH NEWYDD

Yn ystod cwrs y rhyfel, ehangodd rôl yr RFC a'r RNAS. Roedd yr RFC yn gwasanaethu ar draws y Ffrynt Gorllewinol a hefyd yn y Dwyrain Canol (fel rhan o ymgyrchoedd Mesopotamia a Phalesteina), y Balcanau a'r Eidal.

Prif rôl yr RNAS oedd gwarchod a chynnal y Llynges Frenhinol. Fodd bynnag, roedd hefyd yn gysylltiedig â gwarchod Prydain rhag ymosodiad o'r awyr, ac fel yr âi'r rhyfel yn ei flaen, cafodd ei dynnu i mewn i frwydrau, fel y rheiny yn y Dwyrain Canol.

Roedd y ddau wasanaeth wedi ehangu a datblygu, a'u penaethiaid yn gweld y posibiladau y gallai'r dechnoleg newydd ei rhoi iddynt. Fodd bynnag, roedd y ddau wasanaeth yn aml yn cystadlu am awyrennau newydd,

peilotiaid a staff cynorthwyol. I geisio dod â'r gorgyffwrdd neu'r gystadleuaeth rhwng y ddau i ben, penderfynwyd creu'r RAF, a ddechreuodd yn ffurfiol ar 1 Ebrill 1918. Trosglwyddwyd aelodau'r RFC, yr RNAS, y WAAC (Corfflu Cynorthwyol Byddin y Menywod) a'r WRNS i'r RAF newydd.

Erbyn diwedd y rhyfel, roedd gan yr RAF dros 300,000 o staff yn y gwasanaeth a 22,000 o awyrennau. Roedd y WRAF wedi'i ffurfio'r un pryd â'r RAF; dyna'r gwasanaeth milwrol cyntaf i gynnwys menywod o'r cychwyn. Pan ddadfyddinwyd y WRAF ym 1920, roedd ganddo 32,000 o fenywod yn gwasanaethu.

TECHNOLEG Y DYFODOL



Awyren ddwbl gydag un o'r camerâu cynnar yn sownd wrthi

Erbyn diwedd 1918, roedd byddin Prydain wedi adeiladu, defnyddio a cholli miloedd o awyrennau o ganlyniad i'r rhyfel. Roedd datblygiadau mewn technoleg a dealltwriaeth o awyrennau wedi'u gwthio'n bellach nag y byddai unrhyw un wedi'i ddychmygu.

Roedd awyrennau wedi dod yn fwy na phethau ychwanegol, yn awr roeddent yn cael eu hystyried yn rhan o dechnoleg rhyfel. Yn ogystal â gwneud eu gwaith sylfaenol o ragchwilio, roeddent yn cael eu defnyddio i drosglwyddo gwybodaeth, ymladd, bomio ac achub. Yn y blynyddoedd yn dilyn yn Rhyfel Byd Cyntaf, byddai cystadleuaeth a dyfeisgarwch yn gwthio cynllun a thechnoleg awyrennau'n bellach nag erioed. Byddai pŵer, cynhaliaeth a thechnoleg awyr yn dyngedfennol yn y brwydrau oedd i ddod.

DEFNYDDIO'R WYBODAETH HON

Mae'n bosib cyfuno'r wybodaeth hanesyddol a ffeithiol hon gyda'r ffilm gyflwyno a'r adnoddau o'r adran adnoddau i ystyried rhai syniadau creadigol mewn clwb ysgol/clwb anffurfiol, neu ar gyfer gwrs sy'n fwy seiliedig ar y cwricwlwm.

Isod, mae yna syniadau a chwestiynau a gallai'r

deunyddiau hyn eich helpu gyda'r rhain.

Yn ogystal â'r wybodaeth hanesyddol uchod, mae astudiaethau achos a gwybodaeth ychwanegol ar gael yn yr adran adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys bywgraffiadau ac astudiaethau achos ar dechnoleg awyrennau a gwybodaeth am y Ddeddf Seneddol a greodd yr RAF.

CWESTIYNAU ALLWEDDOL I'W HARCHWILIO MEWN UNRHYW LEOLIAD:

Pam wnaeth awyrennau wahaniaeth yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf?

Pam sefydlwyd yr RAF ym 1918?

SUT I DDEFNYDDIO'R DEUNYDD HWN MEWN CLWB HANES NEU GLWB AMSER CINIO/AR ÔL YSGOL/CLWB ANFFURFIOL

Mae'r syniadau hyn yn addas ar gyfer cymysgedd o grwpiau oedran a galluoedd. Mae'n bosibl eu defnyddio gyda'r map rhyngweithiol i ddechrau ymchwiliad hanesyddol lleol hefyd.

DECHREUWCH DRWY DDANGOS Y FFILM - ORIGINS OF THE RAF

Darparwch y wybodaeth hanesyddol neu darllenwch hi i'r myfyrwyr, a dewiswch un neu ddau gwestiwn o'r rhestr uchod y credwch fydd o ddiddordeb i'r grŵp. (Efallai y byddwch am ddefnyddio'r cwestiynau ychwanegol yn y bocs ar ddiwedd yr adran hon i ysgogi syniadau).

Dewiswch rai o'r astudiaethau achos/bywgraffiadau o'r adran adnoddau. Gofynnwch i'r bobl ifanc ateb y cwestiwn/cwestiynau a chyflwyno'u darganfyddiadau fel:

- Poster gwybodaeth am yr RFC neu'r RNAS ar ddechrau'r rhyfel
- Stori papur newydd/llythyr newyddion grŵp ar rôl awyrennau yn ystod y rhyfel
- Arddangosfa ar gyfer hysbysfwrdd yr ysgol/y dosbarth/y grŵp yn dangos y gwahanol ffyrdd y defnyddiwyd awyrennau mewn blwyddyn benodol

- Sgript ddigri yn dangos yr holl wahanol ffyrdd y defnyddiwyd awyrennau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf
- Cyflwyniad yn y gwasanaeth neu sgwrs i aelodau eraill eich grŵp ar un pwnc penodol e.e. trosglwyddo gwybodaeth, gwarchodaeth yr awyr.

Nawr, defnyddiwch rywfaint o'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu i ddechrau ymchwilio i hanes lleol maes awyr milwrol yn eich ardal chi - gallwch wneud hyn gan ddechrau gyda'r map rhyngweithiol. Dros y ganrif ddiwethaf, defnyddiodd yr RAF 1,500 o safleoedd awyr neu leoliadau, felly hyd yn oes nad ydych chi'n byw ger un yn awr, byddai un wedi bod yn eich ardal chi ar ryw adeg.

Ewch ati i ddod o hyd i wybodaeth am y safle.

Nodwch pa wybodaeth neu ddealltwriaeth arall o gyfnod hanesyddol sydd eu hangen i adrodd hanes y safle hwnnw.

DECHREUADAU'R RAF

GWERSI I GEFNOGI'R CWRICWLWM A/NEU ARHOLIADAU



CANLLAWIAU AR SUT Y GALLECH DDEFNYDDIO'R DEUNYDD HWN MEWN GWERS AM:

1. Y Rhyfel Byd Cyntaf
2. Technoleg Rhyfela

1. Y RHYFEL BYD CYNTAF

11 oed a hŷn

Gall y wybodaeth sydd wedi'i chasglu yma gael ei defnyddio gyda gwersi ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf sydd eisoes ar gael, neu gall fod yn wers unigol neu hanner gwrs wedi'i seilio ar y model sydd wedi ei amlinellu isod.

Enghraifft o gwestiwn ymchwil allweddol:

Sut roedd awyrennau'n cael eu defnyddio ar wahanol gyfnodau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf?

Gwylwch y ffilm *Origins of the RAF* a defnyddiwch y wybodaeth hanesyddol.

Crëwch siart sy'n archwilio'r defnydd o awyrennau a gofynnwch i'r myfyrwyr asesu pwysigrwydd y defnydd hwnnw.

Er enghraifft:

CYMHARWCH Y CANFYDDIADAU FEL DOSBARTH

Y defnydd o awyrennau	Y rheswm dros wneud hynny i'w hochr eu hunain	Yr effaith ar yr ochr arall	Pwysigrwydd i'r rhyfel yn gyffredinol
gollwng taflenni	hwb i'r ysbryd	digalonni	isel
cymryd lluniau isel o linellau'r ffosydd	help i gasglu gwybodaeth	dwyn cyfrinachau	uchel

Nawr, gofynnwch i'r myfyrwyr greu siart sy'n dangos sut byddai'r rôl yn cael ei chyflawni heb awyrennau, i benderfynu a fyddai'n effeithiol a nodwch eu rheswm.

UNWAITH ETO, CYMHARWCH Y CANFYDDIADAU

Gweithgaredd a wnaed gan yr awyrennau	Defnydd i'w hochr eu hunain	Y dewis yn lle defnyddio awyrennau	A fyddai'n effeithiol yn yr un ffordd?
gollwng taflenni	hwb i'r ysbryd	ddim ar gael	ni fyddai'n digwydd ac ni fyddai o unrhyw fantais hyd yn oed pe bai'n fach
cymryd lluniau o linellau'r ffosydd	help i gasglu gwybodaeth	defnyddio balwnau statig	yn methu gweld mor bell/balwnau'n haws i anelu atynt

Gan ddefnyddio'r canfyddiadau, gofynnwch i'r myfyrwyr drafod y defnydd o awyrennau – a wnaethon nhw wahaniaeth i'r ffordd y cafodd y rhyfel ei hymladd.

GWAITH ESTYNEDIG:

Crëwch ymgyrch recriwtio, gan dynnu sylw at y gwahanol rolau a sgiliau oedd eu hangen i wasanaethu yn yr RAF ym 1918.

2. TECHNOLEG RHYFELA

Camau Allweddol 3 a 4

Gall y wybodaeth a'r adnoddau yma gael eu defnyddio i archwilio rôl ddatblygol technoleg yr awyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Isod gweler awgrym ar gyfer amlinelliad o wers.

DANGOSWCH Y FFILM - ORIGINS OF THE RAF

Defnyddiwch y lluniau a gymerwyd gan y rhagchwiliadau awyr (yn yr adnoddau) a thrafodwch eu pwysigrwydd i'r ochr sy'n cynllunio ymosodiad neu'n ceisio gweld ble y bydd y gelyn yn ymosod. Gan ddefnyddio copïau o'r lluniau, nodwch y wybodaeth allweddol a welwn yn y llun.

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen y wybodaeth hanesyddol a chreu taflen ffeithiol am awyrennau a ddefnyddiwyd ar y Ffrynt Gorllewinol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Crëwch linell amser o 1914 i 1918, yn dynodi datblygiadau allweddol rolau'r awyrennau, gan ddefnyddio'u taflen ffeithiau fel ffynhonnell.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hanesyddol a ffynonellau eraill,

gofynnwch i'r myfyrwyr greu tair dadl o blaid y gwahaniaeth a wnaeth awyrennau i amddiffyniad a diogelwch pobl ar y ddaear. Gofynnwch i'r myfyrwyr a ydynt yn meddwl fod arfogi â gynnu a/neu fomiau wedi bod yn gam pwysig i'r canlynol:

- Technoleg
 - Y rhyfel fel yr âi yn ei flaen
 - Y rhai oedd yn ymladd yn y ffosydd
 - Y rhai oedd yn cynllunio'r frwydr nesaf
 - Y rhai oedd yn amddiffyn sifiliaid
- Dylent esbonio'u hateb.

Gofynnwch i'r myfyrwyr beth oedd y problemau allweddol ynghylch ehangu'r defnydd o awyrennau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Gofynnwch i'r myfyrwyr greu siart sy'n rhoi trefn ar rolau gwahanol awyrennau o 1914 a thrwy gydol y rhyfel gan ddynodi beth oedd y cyfyngiadau, a dweud a geisiwyd goresgyn y cyfyngiadau yn ystod y rhyfel, e.e. sicrhau cyflenwad, maint cyfyng yr awyrennau, hyfforddi peilotiaid, diogelwch yr awyrennau, ayb.

Gofynnwch iddynt drafod ac ateb fel dosbarth a oedd technoleg awyrennau yn rhy gyfyngedig i fod yn aml-bwrpas gydol y Rhyfel Byd Cyntaf?

Dod i gasgliad. Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried sut newidiodd technoleg awyrennau yn ystod y rhyfel ac i ddynodi pa un yn eu tyb nhw oedd y newid allweddol.

CWESTIYNAU YCHWANEGOL I ATEGU DYSGU AR GYFER POB GRŴP

A wnaeth sefydlu'r RAF anfon unrhyw negeseuon i'r cyhoedd/y fyddin/y gelyn ynghylch pwysigrwydd awyrennau yn ystod y rhyfel?

Ym mha ffyrdd penodol y newidiwyd y defnydd o awyrennau gan dechnoleg yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf?

A oedd y peilotiaid a'r staff cynorthwyol i gyd o'r un cefndiroedd?

CWESTIYNAU AC YMHOLIADAU CYNORTHWYOL

A allwch chi ddarganfod faint o awyrennau oedd gan wledydd eraill ar ddechrau'r rhyfel?

Sawl Croes Victoria a ddyfarnwyd i aelodau o'r RFC, RNAS a'r RAF yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf?

Pa awyrennau a ddefnyddiwyd yn bennaf gan Brydain yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf?

Pa awyrennau a ddefnyddiwyd yn bennaf gan yr Almaen yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf?

Pam roedd y defnydd o awyrennau wedi'i gyfyngu yn ystod y rhyfel?

DEFNYDDIO DEUNYDDIAU ATEGOL FFISEG/STEM:

Mae'r gweithgaredd wedi'i lunio i ddangos gwedd o dechnoleg sy'n arddangos peth o feddwl y gorffennol. Mae'r gweithgaredd STEM hwn yn rhoi sylw i hedfan – ceisiwch ddeall rhai o'r problemau a wynebair beilotiaid y Rhyfel Byd Cyntaf wrth gael eu hyfforddi ac wrth geisio symud eu hawyrennau a fyddai'n effeithio ar y modd y byddent yn cael eu defnyddio.